TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

# Tryms Trên

a mwy o weithgareddau

## Class 230



| | |
|---|---|
| Nifer o cerbydau | 3 |
| Nifer yn y fflyd | 5 |
| Cyflymder uchaf | 60 mya |
| Allyriadau | |
| Capasiti | 426 |

Yn eu bywydau blaenorol, roedd y 230au yn drenau Stoc D Tanddearol Llundain, yn gwasanaethu'r Llinellau Metropolitan, District a Circle hyd at 2017. Maent wedi cael eu hailadeiladu'n llwyr ers hynny, gan ychwanegu injan hybrid disel a gwelliannau i'r tu fewn. Fe'u cyflwynir ar Linell Wrecsam-Bidston yn 2020.

## Class 398



| | |
|---|---|
| Nifer o cerbydau | 3 |
| Nifer yn y fflyd | 36 |
| Cyflymder uchaf | 60 mya |
| Allyriadau | |
| Capasiti | 256 |

Mae trên-tram CityLink Stadler yn ffurfio sylfaen Cerbydau Metro De Cymru, a fydd yn dechrau gwasanaeth yn 2022 ar wasanaethau i Merthyr Tudful, Aberdâr a Threherbert. Mae'r cerbydau arloesol hyn, sy'n cael eu pweru gan drydan uwchben neu fatris, yn gallu rhedeg ar reilffyrdd traddodiadol a thramffyrdd rheilffordd ysgafn.

## Class 769



| | |
|---|---|
| Nifer o cerbydau | 4 |
| Nifer yn y fflyd | 9 |
| Cyflymder uchaf | 75 mya |
| Allyriadau | |
| Capasiti | 558 |

Adeiladwyd y Class 769 yn wreiddiol ar ddiwedd yr 1980au fel trenau trydan Class 319 i'w defnyddio ar wasanaethau Thameslink yn ne-ddwyrain Lloegr. Fel rhan o gynllun arloesol, dewiswyd rhai o'r dosbarth i'w ffitio ag injans disel i'w trosi'n drenau bi-fodd.

## Class 231



| | |
|---|---|
| Nifer o cerbydau | 4 |
| Nifer yn y fflyd | 11 |
| Cyflymder uchaf | 100 mya |
| Allyriadau | |
| Capasiti | 425 |

Bydd y FLIRTs (Fast Light Intercity and Regional Trains) yn cael eu cyflwyno ar wasanaethau Metro De Cymru, gan ddarparu gwelliannau mawr mewn capasiti a phrofiad i'r cwsmer. Bydd y trenau disel-drydan Class 231 yn gweithredu i Glyn Ebwy, Maesteg a Cheltenham o 2022.

## Class 756



| | |
|---|---|
| Nifer o cerbydau | 4 |
| Nifer yn y fflyd | 24 |
| Cyflymder uchaf | 75 mya |
| Allyriadau | |
| Capasiti | 425 |

Wedi'i ddylunio gan Stadler, bydd y 756 yn cael ei gyflwyno ar wasanaethau Metro De Cymru, gan ddarparu gwelliannau mawr ym mhrofiad y cwsmer o 2023. Bydd y Class 756 yn rhedeg i Rhymni a Choryton dan bwer trydan a batris, a drwy injan diesel ar Linell Bro Morgannwg.

## Class 197



| | |
|---|---|
| Nifer o cerbydau | 3 |
| Nifer yn y fflyd | 77 |
| Cyflymder uchaf | 100 mya |
| Allyriadau | |
| Capasiti | 316 |

Mae'r Class 197 newydd sbon, a adeiladwyd yng Nghasnewydd, yn ddyluniad tebyg i drenau newydd sy'n cael eu cyflwyno yng Ngogledd a Gorllewin Canolbarth Lloegr. Disgwylir iddynt gychwyn yn 2022 ar wasanaethau pellter hir ledled rhwydwaith Cymru a'r Gororau, gan wasanaethu cyrchfannau mor amrywiol â Blaenau Ffestiniog, Abergwaun a Lerpwl.

## Cerbyd MK 4



| | |
|---|---|
| Nifer o cerbydau | 4 |
| Nifer yn y fflyd | 3 |
| Cyflymder uchaf | 125 mya |
| Allyriadau | |
| Capasiti | 388 |

Datblygwyd cerbydau Marc 4 fel rhan o'r prosiect InterCity 225 yn yr 1980au, i adeiladu trenau o'r radd flaenaf ar gyfer Prif Linell drydan Dwyrain Lloegr. Mae TrC bellach wedi caffael tair set o gerbydau wedi'u hadnewyddu i'w defnyddio ar y llwybr Caerdydd-Caergybi, gan gymryd lle y cerbydau hŷn Marc 3 o 2020.

## Class 170



| | |
|---|---|
| Nifer o cerbydau | 3 |
| Nifer yn y fflyd | 12 |
| Cyflymder uchaf | 100 mya |
| Allyriadau | |
| Capasiti | 449 |

Gyda'u ffenestri mawr a'u salŵns eang, dyluniwyd y Class 170 ar gyfer teithiau pellter hir, ac maent wedi gweld gwasanaeth ledled Prydain, o Dde Orllewin Lloegr i Ucheldiroedd yr Alban. Fe gyrhaeddon nhw gyda TrC ym mis Rhagfyr 2019, i'w defnyddio ar wasanaethau i Maesteg, Glyn Ebwy a Cheltenham.

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

## Class 158



| | |
|---|---|
| Nifer o cerbydau | 2 |
| Nifer yn y fflyd | 24 |
| Cyflymder uchaf | 90 mya |
| Allyriadau | ●●○○○ |
| Capasiti | 199 |

Datblygwyd y Class 158 o ddyluniad cerbyd Mark 4 i fod yn drên disel modern ar gyfer gwasanaethau pellter hir. Cychwynodd y 158 mewn gwasanaeth yn yr 1990au ledled y wlad, ac maent yn un o'r trenau mwyaf poblogaidd ar rwydwaith Prydain, lle maent yn gweithredu gyda sysytem signalu modern.

## Class 153



| | |
|---|---|
| Nifer o cerbydau | 1 |
| Nifer yn y fflyd | 22 |
| Cyflymder uchaf | 75 mya |
| Allyriadau | ●●○○○ |
| Capasiti | 116 |

Adeiladwyd y Class 153 yn wreiddiol fel trenau Class 155 dau gar, ond fe'u rhannwyd yn drenau sengl er mwyn darparu trenau mwy modern, effeithiol ar gyfer llinellau cangen wledig sydd yn gweld ychydig iawn o deithwyr. Gellir eu defnyddio hefyd i ddarparu cerbyd ychwanegol gyda threnau Sprinter a Pacer.

## Class 150



| | |
|---|---|
| Nifer o cerbydau | 2 |
| Nifer yn y fflyd | 36 |
| Cyflymder uchaf | 75 mya |
| Allyriadau | ●●○○○ |
| Capasiti | 293 |

Cyflwynwyd trenau Sprinter yn yr 1980au fel math safonol newydd o drên disel, gan ddisodli unedau hŷn a threnau wedi'u tynnu gan loco. Dros 30 mlynedd yn ddiweddarach, maent yn dal i fynd yn gryf ledled Cymru a'r Gororau, ond bydd trenau newydd sbon yn eu lle dros yr ychydig flynyddoedd nesaf.

## Class 143



| | |
|---|---|
| Nifer o cerbydau | 2 |
| Nifer yn y fflyd | 15 |
| Cyflymder uchaf | 75 mya |
| Allyriadau | ●●○○○ |
| Capasiti | 216 |

Cyflwynwyd trenau Pacer yn yr 1980au ar lawer o linellau cangen fel ateb dros dro, rhad, ar gyfer trenau disel hŷn. Gellir eu canfod ar wasanaethau y Cymoedd. Ar ôl blynyddoedd lawer o waith caled ledled y wlad, maent bellach yn cael eu tynnu allan o wasanaeth yn ystod 2020.

## Class 142



| | |
|---|---|
| Nifer o cerbydau | 2 |
| Nifer yn y fflyd | 15 |
| Cyflymder uchaf | 75 mya |
| Allyriadau | ●●○○○ |
| Capasiti | 215 |

Cyflwynwyd trenau Pacer yn yr 1980au ar lawer o linellau cangen fel ateb dros dro, rhad, ar gyfer trenau disel hŷn. Gellir eu canfod ar wasanaethau y Cymoedd. Ar ôl blynyddoedd lawer o waith caled ledled y wlad, maent bellach yn cael eu tynnu allan o wasanaeth yn ystod 2020.

## Cerbyd MK 3



| | |
|---|---|
| Nifer o cerbydau | 4 |
| Nifer yn y fflyd | 3 |
| Cyflymder uchaf | 125 mya |
| Allyriadau | ●○○○○ |
| Capasiti | 376 |

Datblygwyd cerbydau Marc 3 fel rhan o brosiect Trên Cyflym yr InterCity 125 yn y 1970au. Mae'r Marc 3 wedi bod yn gweithredu ar wasanaeth Y Gerallt Gymro ers 2008, yn darparu gwasanaeth o'r radd flaenaf ar y llwybr Caergybi- Caerdydd.

## Class 37



| | |
|---|---|
| Nifer o cerbydau | 4 |
| Nifer yn y fflyd | 2 |
| Cyflymder uchaf | 90 mya |
| Allyriadau | ●○○○○ |
| Capasiti | 360 |

Cyflwynwyd y locomotif Class 37 yn y 1960au i gludo teithwyr a nwyddau. Maent wedi gweithio ledled Prydain ac yn dal i fynd yn gryf ar ôl bron i 60 mlynedd mewn gwasanaeth. Yn ystod haf 2019, ailgyflwynodd TrC nhw dros dro i ddarparu capasiti ychwanegol ar linell y Rhymni.

## Class 175



| | |
|---|---|
| Nifer o cerbydau | 3 |
| Nifer yn y fflyd | 27 |
| Cyflymder uchaf | 100 mya |
| Allyriadau | ●●●○○ |
| Capasiti | 299 |

Ar ôl cael eu cyflwyno ym 1999, mae'r Class 175 wedi dod yn olygfa reolaidd ar wasanaethau pellter hir ledled rhwydwaith Cymru a'r Gororau. Maent wedi'u lleoli yng Nghaer, ond gallwch ddod o hyd iddynt mewn lleoedd mor bell â Manceinion Piccadilly, Caergybi ac Aberdaugleddau.

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

## Seiclo



| | |
|---|---|
| Nifer o cerbydau | 1 |
| Nifer yn y fflyd | 55 |
| Cyflymder uchaf | 30 mya |
| Allyriadau | |
| Capasiti | 1 |

Mae buddion beicio bron mor ddiddiwedd â'r ffyrdd gwledig y gallech chi fod yn beicio ar! Rydym yn gweithio gydag awdurdodau lleol a rhanddeiliaid allweddol i helpu darparu rhwydwaith trafnidiaeth integredig ledled Cymru.


## Cerdded



| | |
|---|---|
| Nifer o cerbydau | 1 |
| Nifer yn y fflyd | 3.1 miliwn |
| Cyflymder uchaf | 5 mya |
| Allyriadau | |
| Capasiti | 1 |

Mae cerdded yn syml, am ddim ac yn un o'r ffyrdd hawsaf o fod yn fwy egnïol, I gadw'n heini ac i ysbrydoli ein iechyd meddwl.

## Injan Trevithick



| | |
|---|---|
| Nifer o cerbydau | 5 |
| Nifer yn y fflyd | 1 |
| Cyflymder uchaf | 5 mya |
| Allyriadau | |
| Capasiti | 70 |

Adeiladodd Trevithick yr injan stêm gyntaf yn y byd i redeg yn llwyddiannus ar rheilffordd. Llwyddodd y locomotif, gyda'i silindr fertigol sengl, olwyn flaen 8 troedfedd a gwialen piston hir, i dynnu deg tunnell o haearn, saith deg o deithwyr a phum wagen o'r gwaith haearn ym Mhenydarren i Gamlas Merthyr-Caerdydd.

**Argraffwch a thorrwch ar hyd y llinellau.**

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES


TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES


TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES


TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES


# Cynlluniwch lliw trên eich hun





Pan fyddwch wedi lliwio eich trên, tynnwch lun a thagiwch ni ar
@trafnidiaeth_cymru neu Transport for Wales Trafnidiaeth Cymru ar Facebook











# Oedda chi'n gwybod?

**Llanfairpwllgwyngyllgogerychwyrndrobwllllantysiliogogogoch yn dref yn Ynys Môn ac mae ganddi enw'r orsaf hiraf yn y byd.**
Mae'n golygu Eglwys y Santes Fair yng nghysegr y cyll gwyn ger trobwll cyflym ac Eglwys Sant Tysilio o'r ogof goch.


Roedd **Dewi Sant** yn Esgob Cymreig yn ystod y 6ed ganrif. Yn ddiweddarach fe'i gwnaed yn sant a daeth yn Nawddsant Cymru.
Ar Ddydd Gwyl Dewi, 1 Mawrth, mae pobl yng Nghymru a thu hwnt yn dathlu bywyd Dewi Sant.
Gallwch ymweld â man geni Dewi Sant, **Tyddewi** – dyma ddinas leiaf y Deyrnas Unedig.

Ar un adeg roedd **Pontypridd** yn gartref i'r platfform trên hiraf yn y byd.

Mae gan faner **Cymru** gefndir gwyrdd a gwyn gyda draig goch. Ynghyd â **Bhutan** a **Malta**, dim ond un o dair gwlad sydd â draig ar eu baner genedlaethol.

# Darlunwch eich rheilffordd

Darlunwch rhwydwaith trenau perffaith eich hun i weld ble y gallwch chi fynd.





# Cwis

## Rownd 1: Beth yw fy rôl?

Mae yna lawer o wahanol swyddi ar y rheilffordd. Dyma bump o bobl sy'n gweithio i ni. Allwch chi weithio allan beth yw eu rôl?

1. Fe ddewch o hyd i mi yn y cab. Fy ngwaith i yw gweithredu'r sbardun a'r brêc. Rwy'n cadw llygad ar signalau a gorsafoedd i sicrhau bod y trên yn stopio ar yr amser iawn.
2. Rydw i hefyd yn gweithio ar y trên. Rwy'n agor ac yn cau'r drysau mewn gorsafoedd, ac yn sicrhau bod pawb yn mynd ymlaen ac i ffwrdd yn ddiogel. Rwyf hefyd yn gwirio tocynnau pobl ac yn rhoi gwybodaeth iddynt os oes angen iddynt ddal trên arall.
3. Fi sydd â gofal am y gorsafoedd. Rwy'n gofalu am yr holl staff ac yn sicrhau bod yr adeiladau'n cael eu cadw'n daclus. Os oes angen atgyweirio unrhyw beth, mae'n rhaid i mi roi gwybod amdano fel y gellir ei drwsio.
4. Rwy'n gweithio yn y depo, ac yn aml yn y nos. Fy ngwaith i yw sicrhau bod unrhyw broblemau gyda'r trenau yn cael eu hatgyweirio, a'u bod yn llawn tanwydd yn barod ar gyfer y diwrnod canlynol.
5. Fe welwch fi yn y gorsafoedd mawr. Rwy'n gweithio ar y platfform wrth i'r trenau gyrraedd a gadael. Fy ngwaith i yw dweud wrth y gyrrwr ei bod hi'n ddiogel i'r trên adael.

## Rownd 2: Gorsafoedd

Ym mha ran o Cymru a'r Gororau - De Ddwyrain Cymru; De Orllewin a Chanolbarth Cymru; Gogledd Cymru; a'r Gororau - a welwch y gorsafoedd TrC canlynol? Defnyddiwch ein map i ddarganfod https://tfwrail.wales/our-network/map

1. Caersws
2. Cyffordd Junction
3. Tŷ Glas
4. Y Fali
5. Llwydlo
6. Hwlffordd
7. Bidston
8. Tregatwg
9. Pont Rufeinig
10. Porth

## Rownd 3: Lleoedd

A allwch chi enwi'r orsaf TrC agosaf at y tirnodau enwog hyn yng Nghymru?

1. Stadiwm y Principality
2. Castell Caernarfon
3. Y Gogarth
4. Y Pont Gludo
5. Eglwys Gadeiriol Tyddewi
6. Gerddi Bodnant
7. Pont Tywysog Cymru
8. Pen y Fan
9. Senedd
10. Twyni Pendine

# Atebion

### Rownd 1: Beth yw fy rôl?

1. Gyrrwr
2. Giard trên
3. Rheolwr Gorsaf
4. Peiriannydd
5. Anfonwr

### Rownd 2: Gorsafoedd

1. Caersws – De Orllewin a'r Canolbarth
2. Cyffordd Junction - Gogledd
3. Tŷ Glas – De Ddwyrain
4. Y Fali - Gogledd
5. Llwydlo – Y Gororau
6. Hwlffordd - De Orllewin a'r Canolbarth
7. Bidston – Y Gororau
8. Tregatwg - De Ddwyrain
9. Pont Rufeinig - Gogledd
10. Porth – De Ddwyrain

### Rownd 3: Lleoedd

1. Caerdydd Canolog
2. Bangor
3. Llandudno
4. Casnewydd
5. Abergwaun ac Wdig
6. Tal-y-Cafn
7. Cil-y-Coed
8. Merthyr Tudful
9. Bae Caerdydd
10. Cilgeti